WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Chwefror 2012
www.wao.gov.uk

# Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2010-11



Rwyf wedi llunio a chyhoeddi'r adroddiad yn unol â Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn  John Herniman and Jeremy Saunders

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru.

Mae hefyd yn archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff eraill sydd yn cael eu harchwilio a'i arolygu ganddo. At hynny, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol, heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio. Gellir anfon unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad yma atom yn infoofficer@wao.gov.uk

# Cynnwys


## Adroddiad cryno 4

## Adroddiad manwl 6

Yn gyffredinol, roedd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol wedi'u paratoi'n dda er gwaethaf yr her o weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (y Safonau), er i ddau awdurdod fethu â bodloni'r terfynau amser statudol 6

- Paratowyd y rhan fwyaf o'r cyfrifon ar amser, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd o ran gweithredu gofynion newydd y Safonau 6
- Methodd dau awdurdod â bodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer cynhyrchu a chymeradwyo'u cyfrifon 7
- Yn gyffredinol, roedd y papurau gwaith a oedd yn ategu'r cyfrifon o safon dda ond oherwydd effaith y Safonau ni welwyd parhad yn y gwelliant a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf 8
- Rhoddwyd barn archwilio ddiamod ar bob set o gyfrifon, namyn un 9
- Roedd angen gwneud nifer sylweddol o addasiadau i'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio 9

Mae rhai awdurdodau yn methu â bodloni'r gofynion i gyhoeddi eu cyfrifon erbyn 30 Medi o hyd 11

Mae lle i egluro'r driniaeth gyfrifyddu a roddir i dai cyngor, ysgolion gwirfoddol a gwariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth yn y dyfodol 12

Yn gyffredinol, roedd y datganiadau llywodraethu blynyddol wedi'u paratoi'n dda er bod lle i sicrhau y ceir mwy o fudd ohonynt 13

Cwblhawyd y rhan fwyaf o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar amser 14

# Adroddiad cryno

1 Mae cyrff llywodraeth leol (awdurdodau) yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac, wrth wneud hynny, yn gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus. Fel pob corff cyhoeddus, mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cyfres o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon) i ddangos a chyflwyno adroddiad ar y modd y maent yn gwarchod yr arian cyhoeddus a roddwyd iddynt, a sicrhau bod y datganiadau hynny'n cael eu harchwilio. Mae'r gwaith o gynhyrchu cyfrifon cywir ac amserol yn dasg sylweddol sy'n cyfrannu at lywodraethu corfforaethol effeithiol. Gall unrhyw fethiant i gyhoeddi cyfrifon cywir ac archwiliedig erbyn y terfynau amser rhagnodedig adlewyrchu'n wael ar y sefydliad, gan danseilio ei drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i bob awdurdod yng Nghymru i archwilio'u cyfrifon a rhoi eu barn arnynt. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilwyr a benodir archwilio ac ardystio'r cyfrifon, a bodloni'u hunain eu bod:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr awdurdodau;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol;
- wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau gwaith yr archwilwyr ar gyfer 2010-11 yn y mathau canlynol o awdurdodau yng Nghymru:

**Arddangosyn 1**

| Math o gorff | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau unedol (gan gynnwys wyth cronfa bensiwn) | 22 |
| Awdurdodau'r heddlu | 4 |
| Yr awdurdodau tân ac achub | 3 |
| Awdurdodau'r parciau cenedlaethol | 3 |

4 Nid yw cyrff llywodraeth leol eraill, llai o faint, y caiff eu cyfrifon eu harchwilio hefyd, e.e. cydbwyllgorau a chynghorau cymuned a thref, wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr adroddiad hwn.

5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau baratoi cyfrifon, ac i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu hardystio erbyn 30 Mehefin gyda'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu hailardystio, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi. Pan fo methiant i fodloni'r naill derfyn amser neu'r llall, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi datganiad sy'n manylu ar y camau gweithredu (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi, cymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon.

6 Bu 2010-11 yn flwyddyn heriol i awdurdodau o ran paratoi eu cyfrifon a'u papurau gwaith ategol ar amser. Ymhlith yr heriau penodol a wynebwyd roedd y canlynol:

- bu'n rhaid paratoi datganiad llywodraethu blynyddol gofynnol am y tro cyntaf (er i rai awdurdodau eu paratoi ar sail wirfoddol mewn blynyddoedd blaenorol);

- cafwyd newidiadau technegol a oedd yn deillio o ddiwygiadau i'r rheoliadau cyllid cyfalaf a chyfrifyddu;
- roedd angen addasiadau er mwyn i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus gael eu cynyddu yn unol â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

**7** Fodd bynnag, wynebwyd yr her fwyaf yn sgîl mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf. Roedd angen newidiadau sylweddol i arferion cyfrifyddu a'r modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol. Yn ogystal, roedd angen ailddatgan cyfrifon y flwyddyn flaenorol i ddangos ffigurau cymharol yn unol â pholisïau cyfrifyddu sy'n seiliedig ar y Safonau. Oherwydd maint y newid roedd angen rheoli'r broses o fabwysiadu'r Safonau fel prosiect ynddo'i hun. Roedd hyn yn gofyn am waith cynllunio prosiect, monitro ac adrodd effeithiol ynghyd ag ymrwymiad gan lawer o swyddogion o'r tu allan i'r adran gyllid.

**8** Er gwaethaf yr heriau hyn, ymdopodd yr awdurdodau'n dda ar y cyfan. Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfrifon eu paratoi a'u harchwilio ar amser, er bod angen diwygio sawl un o'r cyfrifon mewn rhyw ffordd ar ôl iddynt gael eu harchwilio. Gyda dau eithriad, cafodd pob un o'r cyfrifon eu paratoi a'u hardystio erbyn 30 Mehefin a'u harchwilio erbyn 30 Medi.

**9** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae archwilwyr wedi nodi bod safon gyffredinol y papurau gwaith sy'n ategu'r cyfrifon wedi gwella'n gyson. Fodd bynnag, ni welwyd gwelliant eleni. Y rheswm am hyn yn ôl pob tebyg oedd y cymhlethdodau ychwanegol a oedd yn deillio o'r broses o weithredu'r Safonau. Er bod materion parhaus a materion sy'n codi dro ar ôl tro y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd o ran y Safonau, disgwyliwn i safon papurau gwaith ategol wella unwaith eto yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**10** Er i'r rhan fwyaf o'r cyfrifon gael eu hardystio a'u harchwilio ar amser, nid yw rhai awdurdodau yn bodloni'r gofyniad i 'gyhoeddi' eu cyfrifon erbyn 30 Medi yn llawn. Mae'r broses gyhoeddi yn gofyn am gamau gweithredu cadarnhaol, ond nid ydynt yn cael eu cymryd weithiau neu maent yn cael eu cymryd ar ôl y terfyn amser.

**11** Ceir rhai meysydd o hyd lle mae prinder canllawiau cyfrifyddu pendant yn arwain at fabwysiadu dulliau anghyson o weithredu. Tair enghraifft o'r fath yw: prisio tai cyngor; y driniaeth a roddir i ysgolion gwirfoddol; a'r modd y cyflwynir cyfrifon gwariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth. Dylai'r cyrff perthnasol roi canllawiau pendant yn y meysydd hyn.

**12** Er mai 2010-11 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol i awdurdodau lunio datganiad llywodraethu blynyddol (yn hytrach na datganiad am reolaeth fewnol), roedd rhai ohonynt wedi mabwysiadu'r arfer mewn blynyddoedd blaenorol. Ar y cyfan, caiff y datganiadau hyn eu paratoi'n dda ond mae lle i awdurdodau roi mwy o sylw iddynt. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu trefniadau a'u risgiau yn gywir, ond hefyd yn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau i gynnal hunanasesiad o'u perfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Mesur 2009).

**13** Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan eu cwblhau a'u harchwilio ar amser. Cyflwynwyd tri datganiad yn rhy hwyr i gael eu cynnwys yng nghyfrifon cyfunol Cymru ond fe'u cynhwyswyd yn ddiweddarach ar lefel y DU. Bydd angen i awdurdodau ac archwilwyr barhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn cael eu cwblhau ar amser yn y dyfodol.

# Adroddiad manwl

## Yn gyffredinol, roedd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol wedi'u paratoi'n dda er gwaethaf yr her o weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (y Safonau), er i ddau awdurdod fethu â bodloni'r terfynau amser statudol

14 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Ariannol Cyfrifol awdurdodau baratoi ac ardystio cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar 31 Mawrth a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn honno, erbyn 30 Mehefin. Mae'r un rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymeradwyo'r cyfrifon yn ffurfiol a sicrhau eu bod yn cael eu hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r unigolyn sy'n llywydd ar y cyfarfod lle y cânt eu cymeradwyo, erbyn 30 Medi. Os methir y terfynau amser ym mis Mehefin neu fis Medi, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi (h.y. sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd) datganiad sy'n egluro pam ei fod wedi methu â pharatoi ac ardystio'r cyfrifon a rhoi manylion y camau gweithredu (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi ac ardystio'r cyfrifon.

15 Ar 30 Mehefin neu oddeutu'r dyddiad hwnnw, mewn cytundeb ag awdurdodau, mae'r archwilwyr a benodwyd yn derbyn cyfrifon a phapurau gwaith ategol i'w galluogi i gyflawni eu gwaith archwilio. Mae'r archwilwyr yn cwblhau eu gwaith mewn da bryd fel bod y cyfrifon yn cael eu hailardystio gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol, eu cymeradwyo gan awdurdodau a bod barn archwilio yn cael ei rhoi arnynt erbyn 30 Medi.

### Paratowyd y rhan fwyaf o'r cyfrifon ar amser, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd o ran gweithredu gofynion newydd y Safonau

16 Roedd yn ofynnol i'r Awdurdodau fabwysiadu darpariaethau llawn y Safonau fel y'u dehonglwyd ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11.

17 Bu hyn yn newid sylfaenol o ran paratoi'r datganiadau ariannol. Yn ogystal â chynhyrchu cyfrifon 2010-11 yn unol â'r fformat a bennwyd gan y Safonau, roedd yn rhaid i awdurdodau ailddatgan mantolenni ar gyfer 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010, ac ailddatgan cyfrifon incwm a gwariant ar gyfer 2009-10. Ymhlith y newidiadau roedd:

- ailddosbarthu eiddo, offer a chyfarpar;
- gofynion datgelu ychwanegol sylweddol;
- i nodi, dosbarthu a chymhwyso triniaeth gyfrifyddu newydd at bob prydles;
- croniadau ar gyfer gwyliau blynyddol nas cymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn;
- triniaeth gyfrifyddu ddiwygiedig ar gyfer grantiau a chyfraniadau.

18 Felly, cafodd y broses o gyflwyno'r Safonau effaith sylweddol ar lwythi gwaith y sawl a oedd yn llunio cyfrifon yr awdurdodau a'r archwilwyr eu hunain.

19 Roedd y gofynion cyfrifyddu newydd yn her i bob awdurdod ac roedd angen cryn dipyn o waith paratoi a chynllunio. Ni ddylid ystyried mai swyddogaeth yr adran gyllid yn unig yw'r gwaith o gynhyrchu cyfrifon; dylai fod yn weithgarwch corfforaethol a arweinir gan yr adran gyllid. Mae'r broses o gyflwyno'r Safonau yn pwysleisio hyn ymhellach. Mae'r gwaith yn gofyn am gryn dipyn o fewnbwn, cydweithredu a chyswllt o du adrannau eraill, megis adrannau ystadau ac adnoddau dynol, er mwyn sicrhau y gweithredir y gofynion newydd yn llawn ac yn gywir. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae adrannau cyllid wedi ymdopi'n dda â'r trefniadau newydd hyn.

20 Yn yr achosion hynny lle gweithiodd y broses o drosglwyddo i'r Safonau yn dda, roedd cynllun prosiect cynhwysfawr ar waith a oedd yn nodi'n glir yr atebolrwydd a'r gofynion o ran adnoddau o fewn yr adran gyllid a'r tu hwnt iddi. Roedd y cynlluniau hyn yn nodi cerrig milltir clir ac roedd cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd i bwyllgorau archwilio. Gwnaeth hyn helpu i godi proffil y materion a wynebwyd a meithrin dealltwriaeth ohonynt, ac ysgogi unrhyw gamau cywirol yr oedd eu hangen.

21 Cafodd rhai cyrff anhawster i gwblhau cyfrifon cywir ar amser. Yn y rhan fwyaf o achosion, y rheswm am hyn oedd gorddibyniaeth ar un neu ddau unigolyn, gwaith cynllunio prosiect gwael a rhwyfaint o oedi a achoswyd wrth i gyrff lynu wrth gyfres o ddatganiadau enghreifftiol nad oeddent yn cynnwys pob un o'r gofynion newydd.

22 Ymhlith y prif feysydd lle cafwyd anawsterau roedd:

- nodi, dosbarthu a chyfrifyddu ar gyfer pob prydles;
- cyfrifyddu ar gyfer asedau buddsoddi ar werth teg;
- nodi asedau a ddelir i'w gwerthu a'u dosbarthu'n gywir;
- amcangyfrif croniad ar gyfer tâl gwyliau yn briodol;
- coladu'r wybodaeth i fodloni'r nifer gynyddol o ddatgeliadau a nodiadau i'r cyfrifon.

## Methodd dau awdurdod â bodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer cynhyrchu a chymeradwyo'u cyfrifon

23 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Ariannol Cyfrifol awdurdodau baratoi ac ardystio cyfrifon erbyn 30 Mehefin ac i awdurdodau gymeradwyo'r cyfrifon er mwyn eu cyhoeddi erbyn 30 Medi. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr roi barn ar y cyfrifon ar ôl iddynt gwblhau'r archwiliad. Mae archwilwyr yn anelu at roi eu barn ar y cyfrifon erbyn 30 Medi, er mwyn galluogi cyrff i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn y terfyn amser statudol. Ystyrir bod methu â sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i gynhyrchu'r cyfrifon yn unol â'r amserlenni statudol yn fethiant difrifol o ran stiwardiaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol. O ganlyniad, pan fethir â bodloni'r terfynau amser, mae'n ofynnol i awdurdodau gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r rhesymau am yr oedi, y camau adferol sy'n cael eu cymryd, a'u hamserlenni ar gyfer cwblhau ac archwilio'r cyfrifon.

24 Ar gyfer 2010-11, cyhoeddwyd pob barn archwilio erbyn 30 Medi, heblaw am Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Methodd y ddau gyngor â pharatoi eu cyfrifon a sicrhau eu bod yn cael eu hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 30 Mehefin, a'u cymeradwyo a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi.

25 Ni wnaeth Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Sir Ynys Môn ardystio cyfrifon y Cyngor tan 21 Gorffennaf. Arweiniodd hyn at oedi cyn dechrau'r archwiliad ar 1 Awst ac nid oedd pob un o'r papurau gwaith yr oedd eu hangen

ar gael ar ddechrau'r archwiliad. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol y methodd Cyngor Sir Ynys Môn â bodloni'r terfyn amser statudol ar gyfer ardystio a chyhoeddi ei gyfrifon. Roedd y problemau sylfaenol a nodwyd gan archwilwyr yn y flwyddyn flaenorol, sef systemau ariannol a oedd wedi dyddio a phrinder staff parhaol, yn dal i fodoli. Roedd y Cyngor yn cyflogi staff asiantaeth i ymgymryd â'r gwaith yr oedd ei angen i gynhyrchu'r cyfrifon a'r papurau gwaith ar gyfer yr archwiliad; ateb dros dro annigonol oedd hyn. Yn y pen draw, cafodd cyfrifon y Cyngor eu hailardystio, eu cymeradwyo, eu harchwilio a'u cyhoeddi ym mis Tachwedd.

26 Ni wnaeth Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ardystio cyfrifon y Cyngor tan 18 Gorffennaf a derbyniwyd y rhan fwyaf o'r papurau gwaith ategol yn fuan ar ôl y dyddiad hwn ond nid oedd nifer ohonynt ar gael tan rai wythnosau yn ddiweddarach. Nododd yr archwilwyr cyn hynny fod angen gwella prosesau cau a bod angen cynnwys mwy o waith adolygu o safon yn y broses. Fodd bynnag, gwaethygwyd yr anawsterau a wynebwyd eleni gan effaith y Safonau, y broses o drosglwyddo ei stoc dai a materion staffio. Yn y pen draw, cafodd cyfrifon y Cyngor eu hailardystio, eu cymeradwyo, eu harchwilio a'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr.

## Yn gyffredinol, roedd y papurau gwaith a oedd yn ategu'r cyfrifon o safon dda ond oherwydd effaith y Safonau ni welwyd parhad yn y gwelliant a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf

27 Er mwyn ategu'r cofnodion yn y cyfrifon, ac i sicrhau proses archwilio ddidrafferth, dylai awdurdodau ddarparu papurau gwaith cynhwysfawr a chyflawn i ategu eu cyfrifon, a hynny'n amserol. Mae'n bwysig bod archwilwyr ac awdurdodau yn cytuno ar y papurau gwaith a ddarperir a gofynion archwilio eraill ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau'r gwaith archwilio ar amser.

28 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd tuedd gyffredinol o welliant parhaus o ran amseroldeb ac ansawdd y papurau gwaith a ddarparwyd i ategu'r cyfrifon. Mae awdurdodau ac archwilwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a ddisgwylir ac, yn y rhan fwyaf o gyrff, datblygwyd trefniadau eraill i ategu'r broses gan gynnwys, er enghraifft:

- archwilwyr yn cael mynediad darllen yn unig i systemau cyfriflyfr;
- papurau gwaith yn cael eu darparu mewn fformat electronig;
- papurau gwaith yn cael eu rhoi ar yriant rhwydwaith a rennir, y gall y corff a'r archwilydd gael mynediad iddo;
- archwilwyr a chyrff yn rhannu gwybodaeth am feysydd newydd neu gynhennus cyn i'r cyfrifon gael eu cynhyrchu;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a materion wrth iddynt godi drwy gydol y broses o gynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon;
- sesiwn dysgu ar y cyd ôl-prosiect i nodi gwelliannau ar gyfer y dyfodol ar ôl cwblhau'r archwiliad.

29 Roedd y papurau gwaith a gynhyrchwyd gan y rhan fwyaf o'r cyrff o safon dda. Fodd bynnag, ni chafodd y duedd gyffredinol, sef gwelliant parhaus o flwyddyn i flwyddyn, ei chynnal eleni. Y prif reswm am hyn oedd y cymhlethdodau ychwanegol a'r llwyth gwaith a welwyd yn sgîl cyflwyno'r Safonau. Mewn rhai achosion, derbyniwyd y papurau gwaith a oedd yn ategu'r cyfrifon yn hwyr neu roeddent yn anghyflawn a/neu o safon wael.

30 Mae angen i awdurdodau ac archwilwyr barhau i gydweithio i wella ansawdd ac amseroldeb y papurau gwaith sy'n ategu'r cyfrifon. Rydym wedi datblygu canllaw arfer da a all helpu cyrff i gynllunio ar gyfer cau eu cyfrifon yn gynt a chyflawni hynny. Paratowyd y canllaw ar gyfer cyrff cyhoeddus a'u harchwilwyr allanol,  a gellir dod o hyd iddo

ar ein gwefan Cyfnewidfa Arfer Da[1]. Mae'n cynnwys canllawiau ac astudiaethau achos ar newid diwylliant, cynllunio, arferion gwaith yn ystod y flwyddyn, a chau a chyflwyno adroddiadau ar gyfrifon.

## Rhoddwyd barn archwilio ddiamod ar bob set o gyfrifon, namyn un

31 Mae archwilwyr yn rhoi barn ddiamod ar ddatganiad cyfrifon os ydynt o'r farn bod y cyfrifon, ym mhob ffordd berthnasol, yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Fel arall, mae nifer o farnau archwilio amodol (neu ansafonol) ar gael.

32 Yn 2010-11, derbyniodd pob awdurdod farn archwilio ddiamod, gydag un eithriad; rhoddwyd barn amodol ar gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Roedd y broses o drosglwyddo i'r Safonau yn 2010-11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad o sefyllfa ariannol gynnwys y ddwy flwyddyn flaenorol fel cymariaethau. Rhoddwyd barn archwilio amodol ar gyfer 2010-11 oherwydd yr anghytuno ynghylch y modd y dehonglwyd y fframwaith statudol ar y pryd mewn perthynas â dal cronfeydd wrth gefn agoriadol yng nghyfrifon 2008-09. Ni fydd hyn yn digwydd ar gyfer 2011-12.

## Roedd angen gwneud nifer sylweddol o addasiadau i'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio

33 Wrth archwilio'r cyfrifon, nid yw archwilwyr yn rhoi sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond maent yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, mae archwilwyr yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall yn y cyfrifon. Camddatganiadau perthnasol yw'r rhai a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

34 Mae penderfyniad yr archwilydd ynghylch perthnasedd yn fater o farn broffesiynol ac mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y penderfyniad gan gynnwys:

- y math o gorff a archwilir;
- natur y gwasanaethau a ddarperir gan y corff;
- gofynion deddfwriaethol;
- y wybodaeth ariannol sydd ei hangen ar ddeddfwyr ac unigolion eraill sy'n defnyddio'r cyfrifon.

35 O ran yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, ystyriwyd bod camddatganiad yn berthnasol os oedd uwchlaw swm penodol, a oedd yn amrywio o £36,000 mewn awdurdodau llai o faint i £10 miliwn mewn awdurdodau mwy o faint. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd effeithio ar b'un a fernir bod eitem yn berthnasol. Felly, gellir ystyried bod balansau a thrafodion â gwerthoedd is yn berthnasol i'r cyfrifon.

36 Drwy eu gwaith, gall archwilwyr nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon awdurdod. Os digwydd hyn, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro'r gwallau. Os na chaiff y camddatganiadau perthnasol eu cywiro, neu os nad yw'n bosibl newid y camddatganiadau hynny am nad oes digon o wybodaeth ar gael, gall yr archwilydd ystyried rhoi barn ansafonol (h.y. amodol).

37 Yn 2010-11, gwnaeth 16 (50 y cant) o'r cyrff a gwmpesir gan yr adroddiad addasiadau perthnasol i'w cyfrifon ar ôl archwiliad. Gyda'i gilydd, gwnaethpwyd addasiadau perthnasol ac addasiadau eraill i'r cyfrifon gwerth £613 miliwn ar gyfer mantolenni a £502 miliwn ar gyfer datganiadau o incwm a gwariant cynhwysfawr.

1 http://www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/1488.asp

38 Fel rhan o'r broses archwilio, caiff camddatganiadau amherthnasol ond sylweddol eraill eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r archwilwyr yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro gwallau o'r fath. Pan gaiff gwallau o'r fath a chamddatganiadau sylweddol eraill eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ond na chânt eu haddasu, bydd yr archwilwyr yn tynnu sylw'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu at hynny. Gofynnant am esboniad ynghylch pam nad yw'r addasiadau wedi'u gwneud cyn iddynt gymeradwyo'r cyfrifon. Yn 2010-11, roedd gwerth £33.3 miliwn o gamddatganiadau nas addaswyd (ond amherthnasol) yn weddill ar fantolenni cyfrifon archwiliedig a £22.9 miliwn yn natganiadau incwm a gwariant cynhwysfawr.

39 Ceir esboniad manylach o'r prif fathau o gamddatganiadau a nodwyd yn sgil gwaith archwilio yn 2010-11 isod.

## Cyfraniadau pensiwn ar hawliadau cyflog cyfartal

40 Yn 1997, llofnododd cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur y 'Cytundeb Statws Sengl'. Drwy lofnodi'r cytundeb hwn, ymrwymodd awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau cyflog anwahaniaethol, i fynd i'r afael â'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol. Nododd yr adolygiadau hyn rai elfennau o wahaniaethu ar sail cyflog ac, yn y rhan fwyaf o awdurdodau, nodwyd bod angen cydnabod rhwymedigaethau cyflog cyfartal.

41 Tan yn ddiweddar, nid oedd yn glir pa un a oedd rhwymedigaethau o'r fath yn ddarostyngedig i gyfraniadau pensiwn. Fodd bynnag, roedd newid i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, yn egluro bod yr elfen ôl-gyflog o rwymedigaethau cyflog cyfartal yn bensiynadwy. Er bod y newidiadau yn weithredol o 30 Medi 2010, roeddent yn gymwys yn ôl-weithredol o 1 Ebrill 2008. Daeth cyngor cyfreithiol a gomisiynwyd gan archwilwyr i'r casgliad, o ganlyniad i'r rheoliadau, bod cyfraniadau pensiwn yn daladwy ar yr elfen ôl-gyflog o setliadau a rhwymedigaethau cyflog cyfartal.

42 Ni wnaeth rhai awdurdodau, ar sail cyngor cyfreithiol a gafwyd ar y pryd, gydnabod rhwymedigaeth ar gyfer cyfraniadau pensiwn pan wnaethant gydnabod rhwymedigaethau neu pan wnaethant setliadau cyflog cyfartal i staff mewn blynyddoedd blaenorol. Fel y cyfryw, nododd yr archwilwyr y dylai rhai awdurdodau gydnabod y rhwymedigaeth hon yn eu cyfrifon.

## Costau gwasanaeth a roddwyd mewn cysylltiad â phensiynau

43 Yn ystod 2010-11, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau pensiwn gael eu cysylltu â chynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu.
O ganlyniad i'r newid hwn caiff rhwymedigaeth pensiwn gyffredinol a ddelir ar fantolenni ei lleihau. Nododd canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM y dylid trin y lleihad hwn mewn rhwymedigaethau fel cost negyddol gwasanaeth a roddwyd ar y sail ei fod yn newid mewn buddiannau yn hytrach nac yn newid mewn tybiaethau. Fel y cyfryw, dylai gael ei nodi'n glir yn y datganiadau o incwm a gwariant cynhwysfawr.

44 Cydnabu rhai awdurdodau gost negyddol gwasanaeth a roddwyd sy'n ymwneud â'r newid hwn fel ennill actiwaraidd yn hytrach na chost negyddol gwasanaeth a roddwyd. Dyrannodd awdurdodau eraill y gost negyddol hon mewn cysylltiad â gwasanaeth a roddwyd ar draws penaethiaid gwasanaethau yn y datganiadau o incwm a gwariant cynhwysfawr yn hytrach na'i nodi'n glir.

### Eiddo, offer a chyfarpar

**45** Erys eiddo, offer a chyfarpar yn faes lle mae nifer sylweddol o awdurdodau yn cael anhawster cymhwyso'r driniaeth gyfrifyddu yn gywir; gwaethygwyd hyn pan gyflwynwyd y Safonau eleni. Ymhlith yr enghreifftiau o gamddatganiadau cyffredin roedd:

- methiant i ailbrisio eiddo yn gywir neu ailbrisio eiddo gan ddefnyddio'r sail anghywir (priodolwyd hyn yn aml i gyfathrebu gwael rhwng adrannau cyllid ac adrannau ystadau);
- ni chafodd pob ased ei ddosbarthu'n gywir oherwydd cyflwynodd y Safonau ddosbarthiadau newydd o asedau (e.e. asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau buddsoddi);
- nid oedd modd cysoni cofrestrau asedau yn llawn gyda chofnodion cyfrifyddu, gyda rhai problemau cyffredin megis rhai asedau yn cael eu cyfrif ddwywaith ac eraill yn cael eu hepgor o'r cyfrifon;
- methiant i drin lleihad yng ngwerth asedau neu ddibrisiant yn gywir;
- methiant i roi cyfrif am arian grant yn gywir.

### Darpariaethau

**46** Mae'n ofynnol i awdurdodau ystyried a all digwyddiadau cyn diwedd y flwyddyn arwain at rwymedigaeth yn y dyfodol. Os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd rhwymedigaeth yn crisialu ac y gellir ei hamcangyfrif mewn ffordd ddibynadwy, yna bydd angen darpariaeth ariannol sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwnnw.

**47** Roedd nifer o awdurdodau wedi sefydlu darpariaethau yn amhriodol ac roedd eraill wedi methu â sefydlu darpariaethau pan oedd angen gwneud hynny. Roedd rhai hepgoriadau penodol yn ymwneud â methiant i gydnabod rhwymedigaethau ar gyfer costau ôl-ofal safleoedd tirlenwi a chyflog cyfartal. Roedd nifer o gamddatganiadau yn ymwneud â chyfrifyddu yswiriant gyda rhai darpariaethau yn cael eu nodi fel cronfeydd wrth gefn ac i'r gwrthwyneb.

### Incwm a gwariant

**48** Ar y dyddiad cau ar gyfer cyfrifon, sef 31 Mawrth, mae'n bwysig bod gweithdrefnau awdurdodau yn ddigon cadarn i sicrhau bod trafodion ar gyfer incwm a gwariant yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn ariannol gywir.

**49** Mae rhoi cyfrif am drafodion yn y flwyddyn ariannol gywir yn dal i fod yn broblem mewn nifer o awdurdodau. Nododd profion archwilio a gynhaliwyd mewn nifer o gyrff fod trafodion wedi'u cynnwys yn y flwyddyn ariannol anghywir. Er nad yw'r cyfryw gamddatganiadau yn berthnasol, gallan teffeithio ar yr alldro a nodir.

## Mae rhai awdurdodau yn methu â bodloni'r gofynion i gyhoeddi eu cyfrifon erbyn 30 Medi o hyd

**50** Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi eu datganiad o gyfrifon erbyn 30 Medi bob blwyddyn, pa un a yw'r cyfrifon wedi'u harchwilio ai peidio. Er nad yw'r broses gyhoeddi yn gofyn am unrhyw waith paratoi y tu hwnt i'r datganiadau eu hunain, nac am ddosbarthu copïau o'r datganiadau i unigolion nad ydynt wedi mynegi diddordeb mewn derbyn y datganiadau hynny, mae'n gofyn am gamau gweithredu cadarnhaol.

**51** Mae'r ymagwedd tuag at fodloni'r gofynion i 'gyhoeddi' yn amrywio. Fodd bynnag, nid yw'n ddigonol bod cyfrifon ar gael drwy bapurau pwyllgorau neu drwy roi copïau i'r sawl sy'n gwneud ymholiadau ar gais yn unig; disgwylir

y bydd cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn fel arfer yw bod y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y corff. Fodd bynnag, awgryma canllawiau Llywodraeth Cymru na ddylai awdurdodau ddibynnu ar un dull o gyhoeddi yn unig. Er bod y rhan fwyaf o gyrff bellach yn rhoi copïau o'u cyfrifon ar eu gwefan, gwneir hyn ymhell ar ôl 30 Medi weithiau. Mae angen i awdurdodau sicrhau bod ganddynt drefniadau priodol ar waith i gyhoeddi eu cyfrifon erbyn y dyddiad cau.

## Mae lle i egluro'r driniaeth gyfrifyddu a roddir i dai cyngor, ysgolion gwirfoddol a gwariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth yn y dyfodol

### Prisiadau tai cyngor

52 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio Gwerth Defnydd Presennol - Tai Cymdeithasol (EUV-SH) i brisio anheddau'r cyngor. Dyma'r swm amcangyfrifedig a ddylai gael ei godi pan fydd eiddo yn newid dwylo rhwng prynwr a gwerthwr bodlon mewn trafodyn hyd braich ar y dyddiad prisio.

53 Yng Nghymru, defnyddir dwy brif fethodoleg i brisio anheddau'r cyngor:

**Arddangosyn 2**

| Methodoleg | |
|---|---|
| Llif arian parod wedi'i ddisgowntio | Mae'r dull hwn yn disgowntio'r ffrydiau incwm a gwariant sy'n deillio o weithrediad y stoc dai ar y dyddiad prisio, dros gyfnod priodol. |
| Gwerth eiddo gwag | Mae'r dull hwn yn addasu gwerth eiddo gwag y stoc dai i adlewyrchu daliadaeth gan denant sicr. |

54 Gall y ddau ddull gwahanol arwain at brisiadau gwahanol iawn yn amrywio o £7,000 fesul tŷ i £84,000 fesul tŷ. Hyd yn oed pan fo awdurdodau yn defnyddio'r fethodoleg eiddo gwag, mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y prisiad. Y ffactorau pennaf yw'r 'eiddo nodweddiadol' a ddewisir (sampl o eiddo a gaiff ei phrisio i osgoi gorfod prisio pob eiddo yn unigol), cywirdeb y prisiad o'r eiddo 'nodweddiadol' a'r ffactor addasu (y disgownt i adlewyrchu'r ffaith bod gan yr anheddau denantiaid sicr). Yn Lloegr, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol fersiwn ddiwygiedig o'i chanllawiau 'Stock Valuation for Resource Accounting Guidance for Valuers' a oedd yn rhagnodi'r dull 'eiddo nodweddiadol' fel y sail y dylai awdurdodau ei defnyddio i brisio eu tai cyngor. Yng Nghymru, nid oes rhagnodiad o'r fath ac rydym yn parhau i drafod hyn gyda Grŵp Prif Gyfrifyddion Cymdeithas Trysorwyr Cymru gyda'r nod o sicrhau y defnyddir dull prisio cyson. Yn y cyfamser, bydd archwilwyr yn parhau i dderbyn un o'r methodolegau a ganiateir, ar yr amod y gwneir tybiaethau rhesymol.

### Rhoi cyfrif am ysgolion

55 Yn 2010-11, nid oedd unrhyw ganllawiau cyson ar b'un a ddylid rhoi cyfrif am ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir ar y fantolen neu oddi arni. Yn 2011, ymgynghorodd CIPFA/LASAAC ar newidiadau i ganllawiau 2011-12 mewn perthynas â rhoi cyfrif am ysgolion. Cynigiodd CIPFA/LASAAC y dylid rhoi cyfrif am ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir oddi ar y fantolen. Fodd bynnag, methodd yr ymarfer ymgynghori â sicrhau consensws, yn enwedig ynglŷn â thriniaeth ysgolion gwirfoddol a reolir. At hynny, nododd CIPFA/LASAAC anghysondebau mewn perthynas â hyn yn ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

56 O ganlyniad, mae CIPFA/LASAAC wedi penderfynu peidio â chyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru mewn perthynas â thriniaeth gyfrifyddu ysgolion ar gyfer 2011-12 ac, o ganlyniad, bydd y driniaeth anghyson yn parhau. Cyn iddynt gael canllawiau pendant, bydd archwilwyr yn derbyn triniaeth gyfredol awdurdodau yn 2011-12 ar yr amod bod esboniad dilys a rhesymol am y fath driniaeth.

### Gwariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth

57 Mae awdurdodau wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o gyflwyno gwariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth yn y cyfrifon. Gwariant cyfalaf y tybir nad yw'n ychwanegu at werth cario'r ased yw hwn.

58 Mae awdurdodau naill ai'n:

- cyfalafu'r gwariant fel ychwanegiad yn y flwyddyn ac yna'n cymhwyso addasiad lleihad mewn gwerth cyfartal a chyferbyniol; neu'n
- codi am y gwariant hwn yn uniongyrchol ar y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr

59 Oherwydd y dulliau gweithredu gwahanol y gellir eu mabwysiadu, gall fod yn anodd cysoni'r ffigurau yn y nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar â'r nodyn addasiadau Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a'r nodyn cyfrif Addasiad Cyfalaf. Trafodwyd y mater hwn gyda Grŵp Prif Gyfrifyddion Cymdeithas Trysorwyr Cymru ac mae wedi cytuno i ystyried y mater ymhellach gyda'r bwriad o nodi dull gweithredu cyson.

## Yn gyffredinol, roedd y datganiadau llywodraethu blynyddol wedi'u paratoi'n dda er bod lle i sicrhau y ceir mwy o fudd ohonynt

60 Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yn ofynnol i awdurdodau baratoi datganiad am reolaeth fewnol yn disgrifio eu system rheolaeth fewnol a'i heffeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn. 2010-11 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol i awdurdodau baratoi datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r datganiad hwn yn fwy nag adolygiad o reolaeth fewnol. Roedd yn ofynnol i archwilwyr adolygu pa un a oedd y datganiad yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â '*Delivering Good Governance in Local Government: Framework*' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007 neu, pa un a oedd yn gamarweiniol neu'n anghyson â'r wybodaeth arall yr oeddent yn ymwybodol ohoni o'u harchwiliad.

61 Mae rhai awdurdodau wedi paratoi'r datganiadau hyn ers nifer o flynyddoedd ac er bod lle i wella'r broses gynhyrchu a chynnwys y datganiadau yn gyffredinol, nid oedd unrhyw faterion sylweddol yn codi o adolygiadau'r archwilwyr. Fodd bynnag, mae lle i sicrhau mwy o fudd ohonynt, a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau y mae'n ofynnol i awdurdodau ei gynnal, drwy gysylltu'r gwaith yn agosach â'r dyletswyddau a osodir ar y rhan fwyaf o awdurdodau o dan Fesur 2009.

62 O dan Fesur 2009, mae'n rhaid i awdurdod gwella gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'i berfformiad o ran cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r asesiad hwn o'r graddau y mae wedi gwneud trefniadau i wella yn cyd-fynd yn glir â'r adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu.

63 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw awdurdod gwella wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella a chyhoeddi gwybodaeth am wella. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu trefniadau'r awdurdod. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chymesuredd, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi ei fod yn barod i ddibynnu ar asesiad yr awdurdod ei hun ar yr amod y gellir dangos ei fod yn gadarn, yn deg ac yn gytbwys. Bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun bod y prosesau adolygu ac adrodd yn drwyadl ac yn gadarn, a'u bod yn gallu esgor ar asesiad teg a chytbwys o'r trefniadau.

64 Gan ystyried y cyfle i gysoni'r adolygiadau hyn a rhoi sicrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol fod yr awdurdod wedi cynnal adolygiad cadarn o'r trefniadau, byddai o fudd i awdurdodau wella'u hadolygiadau cyfredol o effeithiolrwydd a sicrhau bod datganiadau llywodraethu blynyddol yn rhoi tystiolaeth o archwiliad mwy cynhwysfawr o'r trefniadau hynny.

## Cwblhawyd y rhan fwyaf o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar amser

65 Mae Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gyfres o ddatganiadau ariannol cyfunol masnachol ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Caiff cyfrifon tua 1,400 o gyrff eu cyfuno i greu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU, a baratoir gan Drysorlys EM, yn unol â'r Safonau.

66 Trysorlys EM sy'n penderfynu pa gyrff a gaiff eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan bob blwyddyn. Mae hefyd yn dynodi swyddog cyfuno ar gyfer pob corff. Mae'r swyddog hwn yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer llunio ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn amserol a sicrhau bod y ffurflen yn cael ei hategu gan systemau digonol a dyfarniadau cyfrifyddu priodol. Mae'r trefniadau hyn yn cwmpasu pob un o'r awdurdodau yn yr adroddiad hwn.

67 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw archwilydd statudol Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Caiff gwaith y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ei ategu gan y gwaith a wneir gan archwilwyr y cyrff unigol sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi datganiadau sicrwydd i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar y tri is-gyfuniad yng Nghymru gan gynnwys is-gyfuniad llywodraeth leol sy'n cynnwys pob corff llywodraeth leol yng Nghymru.

68 Ar gyfer 2010-11, roedd yr amserlenni fel a ganlyn:

- darparu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan i Lywodraeth Cymru a thimau archwilio lleol erbyn 15 Gorffennaf;
- darparu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan wedi'u harchwilio a'u cymeradwyo i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Medi.

69 Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r ffurflenni ar amser. Fodd bynnag, ni chwblhawyd tair ffurflen mewn pryd i gael eu cynnwys yn is-gyfuniad llywodraeth leol Cymru. Roedd dau o'r rhain o ganlyniad i oedi wrth gynhyrchu cyfrifon fel y nodwyd uchod (Ynys Môn a Chastell-nedd Port Talbot). Y rheswm am y llall oedd anawsterau technegol gyda ffurflen leol Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Cyfunwyd y tri datganiad ar lefel y DU yn ddiweddarach.

70 O ystyried bod Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gyfrif cyhoeddedig yn y DU bellach, mae'n rhaid i awdurdodau ac archwilwyr sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gynhyrchu a chymeradwyo ffurflenni lleol Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau unigol a Llywodraeth Cymru i fireinio a gwella'r trefniadau hyn.